# Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2020

## Adroddiad ar Effaith Covid-19 Cam 3

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
35/2020
DYDDIAD CYHOEDDI:
MAI 21, 2020



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

ISBN Digidol: 978-1-80038-554-2

© Hawlfraint y Goron 2020

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2020: Adroddiad ar Effaith Covid-19 Cam 3.

Anthony Lydall, Strategic Research and Insight

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â'r:
Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau
Croeso Cymru
Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Canolfan QED, Ystad Trefforest
Pontypridd, Rhondda Cynon Taf
CF37 5YR

E-bost: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

**Cynnwys**

1. Prif ganfyddiadau ..... 2
2. Cefndir a methodoleg ..... 5
3. Effaith ar staff ..... 7
4. Effaith ar refeniw ..... 12
5. Cronfa Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru ..... 14
6. Ffurfiau eraill ar gymorth ..... 16
7. Y dyfodol ..... 19

## 1. Prif ganfyddiadau

### Cynhaliwyd arolwg rhwng 22ain Ebrill a 1af Mai

1.1 Cynhaliwyd arolwg ffôn rhwng y 22ain Ebrill a 1af Mai gyda 805 o fusnesau twristiaeth yn ymwneud â llety â gwasanaeth, hunanarlwyo, carafanau a gwersylloedd, hosteli, atyniadau, darparwyr gweithgareddau, bwytai, tafarndai a chaffis. Mewn rhai sectorau fel bwytai, tafarndai a chaffis roedd yn anodd iawn i gael gafael ar unrhyw un ar y ffôn oherwydd y cyfyngiadau ac felly mae'r niferoedd a gynrychiolir yn y don hon yn isel iawn.

1.2 Mae'r sefyllfa o ran Covid-19 yn symud yn gyflym iawn. Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn tra nad oedd strategaeth ymadael y Llywodraeth ac amseriadau bras yn hysbys.

### Mae'r gefnogaeth trwy'r Cynllun Cadw Swyddi wedi cadw diswyddiadau i'r lleiafswm hyd yma

1.3 Dywedodd mwyafrif (71%) y busnesau sy'n cyflogi unrhyw staff fod yn rhaid iddynt roi o leiaf rai ohonynt ar absenoldeb â thâl. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o'r don ymchwil flaenorol (50%), a gynhaliwyd ddiwedd mis Mawrth.

1.4 Ar gyfartaledd, cafodd 8 aelod o staff ym mhob busnes twristiaeth eu rhoi ar absenoldeb â thâl. Pan yn seiliedig ar ddim ond busnesau sydd wedi cymryd y camau hynny, y cyfartaledd oedd 11 ym mhob busnes. Pe bai busnes wedi rhoi unrhyw staff ar absenoldeb â thâl, roedd yn debygol o fod i gyd neu bron bob un o'r rheini y maent yn eu cyflogi.

1.5 Mewn cymhariaeth, dim ond 0.1 oedd nifer y diswyddiadau ar gyfartaledd fesul busnes sy'n cyflogi staff. Mae'r gefnogaeth i staff ar absenoldeb â thâl wedi helpu i gadw'r nifer hwn yn isel hyd yn hyn.

### Effaith ar staff tymhorol

1.6 Fel arfer, byddai tua un o bob chwech (16%) busnes yn cyflogi staff tymhorol yr adeg hon o'r flwyddyn. O'r rhain, roedd lleiafrif (14%) yn dal i allu gwneud hynny - neu 2% o sampl yr arolwg cyfan.

### Amcangyfrif o golli 20% o'r refeniw blynyddol arferol hyd yn hyn

1.7 Y golled ganolrifol yr adroddwyd o ganlyniad i'r argyfwng mewn dim ond y cyfnod ers dechrau'r achosion oedd oddeutu 20% o'r refeniw arferol am y flwyddyn gyfan. Roedd y canfyddiad hwn yn gyson ar draws sectorau, rhanbarth a maint y busnes.

1.8 Roedd yr ystod yn sylweddol - o ddim wedi colli unrhyw beth, i dros 80% o'r refeniw blynyddol arferol.

**Gronfa Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru**

1.9 Pan oedd y Gronfa ar agor ar gyfer ceisiadau, roedd tua hanner (48%) y busnesau twristiaeth a gafodd eu cyfweld wedi gwneud cais. Roedd lefelau cais yn uwch ymhlith y mathau canlynol o fusnes:

- Busnesau â mwy na 5 o weithwyr parhaol (60%)
- Atyniadau a darparwyr gweithgareddau (57%)
- Wedi'i leoli yng Nghanol Cymru (68%)

1.10 Roedd tua thraean (32%) yr ymgeiswyr wedi bod yn llwyddiannus, roedd 11% wedi bod yn aflwyddiannus, ac roedd y gweddill (57%) yn dal i aros am ganlyniad ar adeg y cyfweliad.

**Mathau eraill o gefnogaeth y llywodraeth**

1.11 Roedd tri o bob pedwar (75%) busnes a oedd yn gymwys i gael gwyliau ardrethi busnes wedi gwneud cais am grant. Ond ar wahân i grantiau ardrethi busnes, dim ond ychydig o ymatebwyr oedd wedi gwneud cais am unrhyw gymorth arall y gwnaethom ni ofyn amdano (naill ai cefnogaeth Llywodraeth y DU neu fenthyciadau Banc Datblygu Cymru). Roedd busnesau yn amharod i dderbyn benthyciadau, sydd yn cynnwys talu'n ôl gyda llog.

**Goroesi'r cyfyngiadau**

1.12 Nid yw tua chwarter (23%) o fusnesau yn disgwyl goroesi'r tri mis nesaf os bydd cyfyngiadau'n parhau, tra nad yw tri o bob deg (30%) yn gwybod pa mor hir y gallant oroesi.

1.13 Fodd bynnag, gallai tua thraean (31%) o'r gweithredwyr oroesi am fwy na 6 mis arall o'r cyfyngiadau. Mae'n ymddangos bod cael incwm mawr arall ar wahân i dwristiaeth yn ffactor arwyddocaol.

**Pryderon tymor canolig a thymor hwy**

1.14 Y pryderon mwyaf arwyddocaol yn y tymor canolig ac yn y tymor hwy yw:

- Ddim yn gwneud digon o arian yn yr haf i oroesi y gaeaf nesaf
- Adlach gan bobl leol wrth agor eto i dwristiaid
- Rheoli cadw pellter cymdeithasol - gallai fod yn anodd iawn i rai mathau o fusnesau
- Adferiad araf oherwydd pryderon cwsmeriaid a / neu berchnogion ynghylch peryglon iechyd

**Cefnogaeth a ddymunir gan Croeso Cymru (Llywodraeth Cymru)**

1.15 Roedd yna llawer o sylwadau ar y wybodaeth dda a'r gefnogaeth ariannol a roddwyd eisoes. Mae'r gefnogaeth a ddymunir ymhellach yn cynnwys:

- Canllawiau ar sut i weithredu'n ddiogel ar ôl y cyfyngiadau
- Cymorth ariannol pellach os collir tymor yr haf

## 2. Cefndir a methodoleg

### Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

2.1 Cynlluniwyd Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru i roi adborth cyflym ynglŷn â'r ffordd y mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn.

2.2 Yr arolwg hwn yw'r trydydd cam eithriadol i ymchwilio i effaith y pandemig COVID-19 ar y diwydiant twristiaeth. Y cynllun cyfredol yw ailadrodd yr arolwg hwn bob pythefnos i bedair wythnos fel y bo angen. I gyd-fynd â hyn, ceir hefyd arolwg ar-lein y gall busnesau o amrediad ehangach o sectorau gymryd rhan ynddo. Bydd canlyniadau'r arolwg ar-lein yn cael eu dadansoddi ar wahân yn rheolaidd.

### Sut y cynhelir yr arolwg?

2.3 Rydym wedi cynnal 805 o gyfweliadau dros y ffôn. Mae hwn yn golygu bod canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i ±3.5%. Mae'r sampl yn adlewyrchu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru, ac fe'i dangosir isod fesul sector a rhanbarth:


| Sector/Rhanbarth | Gogledd | Canolbarth | De-orllewin | De-ddwyrain | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Llety â gwasanaeth | 125 | 41 | 79 | 57 | **302** |
| Llety hunanddarpar | 120 | 69 | 90 | 60 | **339** |
| Meysydd carafanau/pebyll | 30 | 13 | 20 | 10 | **73** |
| Hostelau | 5 | 5 | 6 | 6 | **22** |
| Atyniadau a gweithredwyr gweithgareddau | 15 | 13 | 20 | 16 | **64** |
| Bwytai/tafarndai/caffis | 1 | 4 | - | - | **5** |
| **Cyfanswm** | **296** | **145** | **215** | **149** | **805** |

2.4 Mae 76% o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru, ac mae 2% arall, nad ydynt yn cael eu graddio gan Croeso Cymru, yn cael eu graddio gan sefydliadau eraill. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau nad ydynt wedi eu graddio wedi'u gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau, ar wahân i fwytai/tafarndai/caffis a gweithredwyr gweithgareddau, lle nad yw graddio'n berthnasol. Cynhaliwyd pob cyfweliad ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnes rhwng 22 Ebrill a 1 Mai.

2.5 Yn y sector bwytai/tafarndai/caffis, bu'n anodd iawn cael gafael ar unrhyw un dros y ffôn oherwydd mesuriadau'r cyfyngiadau symud. Nid yw hyn yn gogwyddo'r canfyddiadau cyffredinol yn sylweddol, ond mae'n golygu na allwn adrodd ar y sector hwn yn benodol.

## 3. Effaith ar staff

## Effaith ar staff yn gyffredinol




*Gofynnwyd C8 i weithredwyr sy'n cyflogi staff yn unig*

**Cynnydd sylweddol mewn rhoi gweithwyr ar ffyrlo ers y cam ymchwil blaenorol**

3.1 Dywedodd y mwyafrif o fusnesau (71%) sy'n cyflogi staff eu bod wedi gorfod rhoi o leiaf rhai ohonynt ar absenoldeb â thâl / ffyrlo. Mae hwn yn gynnydd sylweddol o'r cam ymchwil blaenorol (50%), a gynhaliwyd ar ddiwedd mis Mawrth.

3.2 Roedd y gyfran o fusnesau sydd wedi rhoi staff ar ffyrlo fesul rhanbarth fel a ganlyn:

- Gogledd Cymru – 80%
- Canolbarth Cymru – 60%
- De-orllewin Cymru – 67%
- De-ddwyrain Cymru – 72%

| Cam gweithredu | Cyfanswm y gweithwyr a gyflogir | Nifer y staff ar wyliau / yn ddi-waith ar gyfartaledd *(Sampl: busnesau sy'n cymryd y cam hwn)* | Nifer y staff ar wyliau / yn ddi-waith ar gyfartaledd *(Sampl: pob busnes sy'n cyflogi staff)* |
|---|---|---|---|
| **Nifer y staff a roddwyd ar ffyrlo / ar absenoldeb â thâl** | 1 | 1.0 | 0.4 |
| | 2 | 1.9 | 1.2 |
| | 3 | 2.6 | 1.5 |
| | 4 | 3.4 | 2.8 |
| | 5 | 4.4 | 2.4 |
| | 6 – 10 | 7.1 | 6.6 |
| | 11 – 50 | 19.1 | 16.5 |
| | Dros 50 | 55.2 | 55.2 |
| | Gyffredinol | 11.0 | 7.7 |
| **Staff sydd ar absenoldeb di-dâl** | Gyffredinol | 3.0 | 0.8 |
| **Staff a ddiswyddwyd** | Gyffredinol | 5.3 | 0.1 |

*Nid yw'r cyfartaleddau ar gyfer absenoldeb di-dâl a diswyddiadau wedi'u rhannu yn ôl maint y busnes oherwydd y sampl fach a grëir wrth rannu*

**Os cafodd unrhyw aelod o staff ei roi ar ffyrlo, roedd hynny'n golygu pob gweithiwr neu bron pob gweithiwr**

3.3 Ar gyfartaledd, roedd wyth aelod o staff fesul busnes twristiaeth wedi cael eu rhoi ar ffyrlo / absenoldeb â thâl. Pan ystyriwyd y busnesau a gymerodd y cam gweithredu hwnnw yn unig, roedd y cyfartaledd yn 11 fesul busnes. Os rhoddodd busnes unrhyw aelod o staff ar ffyrlo, roedd yn debyg y gwnaethpwyd hynny ar gyfer pawb neu bron pawb a gyflogir ganddo (gan gymharu pob cyfartaledd â'r nifer a gyflogir).

*“29 ar ffyrlo, tri mewn cyflogaeth o hyd (cynllunwyr priodasau a chyfrifydd)”*
Llety â gwasanaeth, Canolbarth

3.4 Roedd y rhaniadau fesul rhanbarth ar gyfer rhoi ar ffyrlo fel a ganlyn:

| Rhanbarth | Nifer y staff a roddwyd ar ffyrlo ar gyfartaledd *(Sampl: busnesau sy'n cymryd y cam hwn)* | Nifer y staff a roddwyd ar ffyrlo ar gyfartaledd *(Sampl: pob busnes sy'n cyflogi staff)* |
|---|---|---|
| Gogledd Cymru | 9.0 | 6.9 |

| | | |
|---|---|---|
| Canolbarth Cymru | 7.2 | 4.4 |
| De-orllewin Cymru | 12.0 | 8.0 |
| De-ddwyrain Cymru | 15.6 | 10.1 |

**Nifer bach iawn o ddiswyddiadau hyd yn hyn**

3.5 O ran cymhariaeth, dim ond 0.1 oedd nifer y diswyddiadau ar gyfartaledd fesul busnes sy'n cyflogi staff. Mae'r cymorth ar gyfer aelodau staff a roddwyd ar ffyrlo wedi helpu i gadw'r ffigur hwn i leiafswm hyd yn hyn.

3.6 Ar adeg ysgrifennu (4 Mai), roedd y cymorth ffyrlo wedi'i addo hyd at ddiwedd mis Mehefin. Os bydd cyfyngiadau symud yn parhau am gyfnod hwy, nid oedd eto'n hysbys a gawsai'r cynllun hwn ei estyn, nac am ba hyd.

## Staff tymhorol

| ***C5 "Sawl gweithiwr tymhorol y byddech chi'n eu cyflogi fel arfer ar adeg hon y flwyddyn?"*** | ***Rhanbarth Cymru*** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ***Cymru gyfan*** | ***Gog*** | ***Canol*** | ***D. Orll.*** | ***D. Ddn.*** |
| Dim un | 84% | 84% | 84% | 85% | 84% |
| 1 | 3% | 3% | 3% | 4% | 3% |
| 2 | 4% | 3% | 7% | 5% | 4% |
| 3 | 1% | 1% | – | – | 1% |
| 4 | 2% | 2% | 3% | 1% | 2% |
| 5 | – | 1% | – | – | – |
| 6 i 10 | 2% | 2% | 1% | 1% | 4% |
| 11 i 50 | 2% | 3% | 2% | 2% | 1% |
| Mwy na 50 | 1% | – | – | – | 1% |
| Ddim yn gwybod | 1% | 1% | 1% | 1% | |
| *Sampl* | *805* | *296* | *145* | *215* | *149* |

**Staff tymhorol yn fwy tebygol mewn atyniadau a gweithgareddau**

3.7 Cynhaliwyd yr arolwg ar adeg o'r flwyddyn pan fo rhai busnesau twristiaeth yn dechrau cyflogi gweithwyr tymhorol. Byddai tua un ymhob chwech (16%) yn gwneud hynny fel arfer. Mae hyn yn debygol o ddigwydd mewn busnesau atyniadau a darparwyr gweithgareddau, lle byddai 28% fel arfer yn cyflogi gweithwyr tymhorol ar adeg hon y flwyddyn.

| **C6 (Os yw staff yn cael eu cyflogi fel arfer) "Sawl gweithiwr tymhorol, os o gwbl, ydych chi wedi gallu eu cyflogi eleni?"** | |
|---|---|
| Dim un | 86% |
| 1 | 5% |
| 2 | 2% |
| 3 | 1% |
| 4 | 2% |
| 5 | 1% |
| 6 i 10 | 2% |
| 11 i 50 | 2% |

Sampl: 123

*SYLWER Mae'r sampl hon yn rhy fach i'w rhannu fesul rhanbarth mewn modd dibynadwy*

## Rhywfaint o staff tymhorol yn cael eu cyflogi er gwaethaf yr argyfwng

3.8 Nid oedd y rhan fwyaf (86%) o fusnesau a fyddai'n cyflogi gweithwyr tymhorol ar adeg hon y flwyddyn fel arfer wedi gallu cyflogi unrhyw un eto eleni. Roedd hyn yn enwedig yn wir ymhlith busnesau llety â gwasanaeth, lle nad oedd 97% wedi gallu cyflogi staff tymhorol.

*"Rydyn ni wedi gofyn i ddau weithiwr tymhorol i beidio â dechrau gweithio"*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

3.9 Fodd bynnag, ni wnaeth yr argyfwng chwalu pob cyflogaeth dymhorol – yn enwedig y tu allan i'r sector â gwasanaeth, lle'r oedd 24% o fusnesau wedi gallu cyflogi staff tymhorol eleni.

*"Mae'r glanhawr yn mynd i mewn ddwywaith yr wythnos er mwyn cadw llygad ar yr eiddo at ddibenion yr yswiriant ac mae'r garddwr yn mynd unwaith y mis er mwyn ei gadw'n daclus"*
Llety hunanddarpar, Gogledd

## Rhoi staff tymhorol ar ffyrlo

3.10 Dywedodd y rhan fwyaf (89%) o fusnesau sydd fel arfer yn cyflogi staff tymhorol ar adeg hon y flwyddyn nad oeddent yn cyflogi neb ar hyn o bryd a oedd yn gymwys ar gyfer ffyrlo, fel arfer oherwydd nad oedd neb wedi'u cyflogi cyn y dyddiad cymhwysedd cyntaf, sef 19 Mawrth.

3.11 Roedd gan yr 11% arall of fusnesau staff tymhorol yn gymwys ar gyfer ffyrlo – ac roedd y rhan fwyaf o'r rheiny y tu allan i'r sector â gwasanaeth (17%).

## 4. Effaith ar refeniw

### Colli refeniw

| *C9 "… faint o refeniw y mae eich busnes wedi'i golli hyd yn hyn yn sgil yr argyfwng COVID-19?"* | *Rhanbarth Cymru* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Cymru gyfan* | *Gog* | *Canol* | *D. Orll.* | *D. Ddn.* |
| Heb golli unrhyw refeniw | 1% | – | – | 2% | 2% |
| Hyd at £1,000 | 3% | 2% | 5% | 3% | 2% |
| £1,001 – £2,500 | 7% | 5% | 8% | 7% | 9% |
| £2,501 – £5,000 | 18% | 17% | 15% | 20% | 18% |
| £5,001 – £10,000 | 25% | 26% | 33% | 19% | 20% |
| £10,001 – £25,000 | 22% | 25% | 19% | 20% | 22% |
| £25,001 – £50,000 | 10% | 10% | 10% | 12% | 8% |
| £50,001 – £100,000 | 8% | 6% | 4% | 11% | 10% |
| £100,001 – £250,000 | 4% | 4% | 5% | 3% | 6% |
| £250,001 – £500,000 | 2% | 2% | 2% | 1% | 2% |
| £500,001 – £1,000,000 | 1% | 1% | – | 1% | 2% |
| *Sampl* | *571* | *220* | *102* | *143* | *106* |

**Colledion refeniw yn cronni**

4.1 Bu amrywiaeth sylweddol yng ngwerth y refeniw a gollwyd o ganlyniad i'r argyfwng yn ôl maint y busnes, ond yn gyffredinol yn y diwydiant, roedd canolrif y golled fesul busnes, ar adeg y cyfweliadau, rhwng £5,000 a £10,000. Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o ganolrif y golled fesul busnes yn ôl nifer y gweithwyr:

| Nifer y staff parhaol â chyflog | Amcangyfrif o ganolrif y golled mewn refeniw hyd yn hyn |
|---|---|
| Dim | £5,000 i £10,000 |
| 1 – 5 | £10,000 i £25,000 |
| 6 – 10 | £50,000 i £100,000 |
| 11 – 50 | £50,000 i £100,000 |
| Mwy na 50 | £250,000 |

| C10 "A tua pha gyfran o'ch refeniw blynyddol arferol a gynrychiolir gan y golled honno hyd yn hyn?" | Rhanbarth Cymru | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cymru gyfan | Gog | Canol | D. Orll. | D. Ddn. |
| 2% neu lai | – | 1% | – | – | – |
| 3 – 5% | 1% | 1% | – | 2% | 2% |
| 6 – 10% | 11% | 8% | 10% | 14% | 13% |
| 11 – 15% | 17% | 13% | 20% | 18% | 18% |
| 16 – 20% | 24% | 23% | 29% | 18% | 30% |
| 21 – 30% | 23% | 25% | 24% | 22% | 19% |
| 31 – 40% | 12% | 15% | 6% | 15% | 7% |
| 41 – 50% | 5% | 6% | 5% | 3% | 6% |
| 51 – 60% | 2% | 4% | 1% | 2% | 2% |
| 61 – 70% | 1% | 3% | 1% | 1% | – |
| 71 – 80% | 1% | 1% | – | 2% | – |
| Dros 80% | 3% | 2% | 4% | 3% | 2% |
| *Sampl* | *486* | *193* | *83* | *121* | *89* |

**Yr effaith gymharol yn boenus ar draws busnesau o bob maint**


4.2 Er y bu amrywiaeth fawr yn ôl maint y busnes o ran gwerth y golled mewn refeniw hyd yn hyn mewn punnoedd, nid felly'r gyfran o'r refeniw blynyddol arferol yr oedd y golled yn ei chynrychioli. Ar draws pob maint o fusnes, y golled ganolrifol yr adroddwyd o ganlyniad i'r argyfwng mewn dim ond y cyfnod ers dechrau'r achosion oedd oddeutu 20% o'r refeniw arferol am y flwyddyn gyfan. Roedd y darlun yn gyson hefyd ar draws pob sector a rhanbarth.

*“Mae'n bosib na fydd gen i fusnes yn fuan”*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*“Rwy'n cyrraedd diwedd fy nghynilion a fedra i ddim gweld unrhyw fusnes tan Mai nesaf rŵan. Mae fy ngwraig a fi'n meddwl am werthu'r cwbl.”*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

# 5. Cronfa Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru

## Gwneud cais am gymorth




*Gofynnwyd C8 i weithredwyr sy'n cyflogi staff yn unig*

**Dim ond tua hanner o fusnesau sydd â staff a oedd wedi gwneud cais**

5.1 Agorodd Cronfa Cadernid Llywodraeth Cymru i geisiadau ddydd Gwener 17 Ebrill. Roedd yn agored i fusnesau sy'n cyflogi staff trwy'r cynllun Talu Wrth Ennill, a oedd hefyd yn gorfod cwrdd â rhestr o feini prawf ychwanegol. Cafodd ei oedi ddydd Llun 27 Ebrill yn dilyn lefel uchel iawn o geisiadau – tua hanner ffordd trwy gynnal y gwaith maes ar gyfer y gwaith ymchwil hwn.

5.2 Gan mai arolwg sampl oedd hwn, y ffordd orau o ddeall y darlun llawn yw defnyddio gwybodaeth reoli y Gronfa Cadernid Economaidd.

5.3 Pan agorwyd y gronfa ar gyfer ceisiadau, ymgeisiodd tua hanner (48%) y busnesau twristiaeth a gyfwelwyd. Roedd y lefelau ymgeisio lawer uwch ymhlith y mathau canlynol o fusnes:

- Busnesau gyda mwy na phump o weithwyr parhaol (60%)
- Atyniadau a darparwyr gweithgareddau (57%)
- Wedi'u lleoli yng nghanolbarth Cymru (68%) – *gweler y dyfyniadau isod*


*“Rydyn ni'n hapus iawn gyda'r wybodaeth ddiweddaraf rydyn ni'n ei chael gan Twristiaeth Canolbarth Cymru, sy'n wych”*
Llety hunanddarpar, Canolbarth

*“Mae Twristiaeth Canolbarth Cymru a Croeso Cymru wedi bod yn wych. Mae'r wybodaeth ddiweddara ar Facebook yn grêt – mae'n arbed amser i fi wrth beidio gorfod edrych ar wefannau Busnes Cymru.”*
Llety â gwasanaeth, Canolbarth

5.4 Mae'r tabl isod yn dangos canlyniadau C11 wedi'u rhannu fesul rhanbarth:

| ***C11 "Cronfa Cadernid Economaidd Cymru … a ydych wedi ceisio gwneud cais am gymorth?"*** | ***Rhanbarth Cymru*** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ***Gog*** | ***Canol*** | ***D. Orll.*** | ***D. Ddn.*** |
| Ydw – ar gyfer grant microfusnes | 5% | 5% | 8% | 5% |
| Ydw – ar gyfer grant busnesau bach a chanolig / mawr | 18% | 37% | 20% | 11% |
| Ydw – ond ddim yn bodloni'r meini prawf | 23% | 26% | 18% | 23% |
| Nac ydw | 54% | 32% | 54% | 61% |
| *Sampl* | *114* | *57* | *89* | *74* |

## Canlyniadau




*SYLWER Mae'r sampl hon yn rhy fach i'w rhannu fesul rhanbarth mewn modd dibynadwy*

**Bu tua thri chanlyniad hysbys allan o bob pedwar yn llwyddiannus**

5.5 Lle yr oedd canlyniad yn hysbys, bu tua thri ymhob pedwar yn llwyddiannus. Bu nifer o wahaniaethau rhanbarthol ar adeg y cyfweliadau, pan oedd 69% o fusnesau canolbarth Cymru yn gwybod eu canlyniad – roedd 61% wedi bod yn llwyddiannus, o gymharu ag 8% yn unig a fu'n aflwyddiannus.

5.6 Roedd dros hanner y busnesau (57%) yn parhau i aros am y canlyniad. Roedd hyn yn enwedig o wir ymhlith busnesau sydd â mwy na deg o weithwyr parhaol (73%).

# 6. Ffurfiau eraill ar gymorth


## Seibiant ardrethi busnes

6.1 Dywedodd tua hanner (48%) o'r busnesau a ymatebodd eu bod yn gymwys ar gyfer seibiant ardrethi busnes. Roedd y gyfran yn uwch ymhlith y canlynol:

- Busnesau gyda 6 – 10 o weithwyr parhaol (75%)
- Busnesau gogledd Cymru (58%)

6.2 Roedd y cymhwysedd yn llai ar ddau ben y sbectrwm o ran maint busnesau. Awgrymodd sylwadau agored y gallai hyn fod oherwydd naill ai fod busnesau'n talu ardrethi domestig (fel y mae llawer o ficrofusnesau'n ei wneud), neu fod gan fusnesau werth ardrethol sy'n rhy uchel i fod yn gymwys.

## Cynlluniau'r llywodraeth




*Ni ofynnwyd i fusnesau nad ydynt yn gymwys am seibiant ardrethi busnes am grantiau ardrethi busnes*

### Ceisiadau wedi'u gwneud ar gyfer grantiau ardrethi busnes, ond bach iawn fel arall

6.3 Roedd tri busnes ymhob pedwar (75%) a gyfwelwyd ac a oedd yn gymwys am seibiant ardrethi busnes wedi gwneud cais am grant. Roedd lefel y ceisiadau ar ei huchaf yng ngogledd Cymru, lle'r oedd 83% wedi ymgeisio.

6.4 Ond ar wahân i grantiau ardrethi busnes, bach iawn o ymatebwyr oedd wedi gwneud cais am unrhyw beth arall heblaw'r cymorth a restrir uchod. Mae Credyd Cynhwysol yn fudd-dal personol (ar gyfer llawer o berchenogion microfusnesau, mae cyswllt agos rhwng eu harian personol ac arian eu busnes), ac roedd y cynllun i'r hunangyflogedig ond yn gymwys i rai.

6.5 O ran benthyciadau, fodd bynnag, roedd hi'n ymddangos nad oedd fawr o awydd yn y diwydiant i gymryd risg wrth fynd i ddyled ychwanegol na allai busnesau ei had-dalu o bosibl. Roedd nifer y ceisiadau ar gyfer benthyciadau ar eu huchaf ymhlith y busnesau mwyaf (gyda mwy na 50 o weithwyr) – roedd 14% wedi gwneud cais am gynllun benthyciadau Banc Datblygu Cymru, a Benthyciad Tarfu ar Fusnes llywodraeth y DU yn yr un modd.

*"Dwi ddim eisiau cael benthyciad oni bai fod wirioneddol rhaid"*
Llety â gwasanaeth, De-orllewin


*"Dwi ddim yn benthyca o fanciau"*
Parc carafanau, De-orllewin

*"Dwi ddim eisiau benthyciad oherwydd alla i ddim gwarantu bydd arian yn dod i mewn i'w dalu e nôl a dwi ddim eisiau mynd i fwy o ddyled"*
Llety â gwasanaeth, Canolbarth

6.6 Mae'r tablau isod yn dangos canrannau'r busnesau sydd wedi ceisio am grant wedi'u rhannu fesul rhanbarth:

| **Math o grant** | **% a ymgeisiodd fesul rhanbarth o Gymru** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Gog** | **Canol** | **D. Orll.** | **D. Ddn.** |
| Hyd at £10,000 | 63% | 58% | 55% | 48% |
| Hyd at £25,000 | 19% | 20% | 15% | 19% |

## Canlyniadau





**Ceisiadau am grant fel arfer yn llwyddiannus; llwyddiant cymysg o ran benthyciadau**

6.7 Lle'r oedd canlyniad cais am grant yn hysbys, roedd y canlyniad fel arfer yn llwyddiannus. O ran benthyciadau, bu'r gyfradd lwyddo yn llai. Mae meintiau'r sampl ar gyfer y canlyniadau yn rhy fach i'w rhannu fesul rhanbarth mewn modd dibynadwy.

## 7. Y dyfodol

### Archebion yn y dyfodol




**Roedd llawer mwy o archebion ar fin cael eu colli**

7.1 Ar yr un pryd ag yr oedd busnesau twristiaeth yn parhau i fod yn ansicr ynghylch pryd y gallant ailagor, ac ar ba ffurf, roedd llawer o archebion pellach ar fin cael eu colli.


> *"Gwnes i'r modelu [ariannol] ddoe ac erbyn rhywbryd o gwmpas y Nadolig, bydda i wedi ymestyn fy nghyfleuster gorddrafft i'r eithaf. Os na alla i dderbyn yr archebion sydd gen i ar gyfer mis Gorffennaf, yn y bôn, bydd fy musnes wedi'i chael hi."*
> Llety â gwasanaeth, Canolbarth

7.2 Yn arbennig, roedd busnesau de-ddwyrain Cymru yn mynd i gael ergyd galed o ganlyniad i barhad yn y cyfyngiadau symud. Gallent fod wedi cael mis cryf ym mis Mai – dywedodd 84% fod ganddynt archebion sylweddol ar gyfer mis Mai.

7.3 Mae'r tabl isod yn dangos canlyniadau C20 wedi'u rhannu fesul rhanbarth:

| ***C20 "Beth yw'r mis cynharaf o hyn pan fo gan eich busnes nifer sylweddol o archebion?"*** | ***Rhanbarth Cymru*** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ***Gog*** | ***Canol*** | ***D. Orll.*** | ***D. Ddn.*** |
| Mai | 25% | 24% | 15% | 84% |
| Mehefin | 13% | 22% | 23% | 5% |
| Gorffennaf | 19% | 14% | 26% | 4% |
| Awst | 9% | 17% | 7% | 2% |
| Medi | 6% | 3% | 3% | – |
| Hydref | 1% | 1% | – | – |
| Tachwedd | – | – | – | – |
| Rhagfyr | – | – | – | 1% |
| Tu hwnt i 2020 | 2% | 1% | 2% | – |
| Does gen i ddim archebion sylweddol ar gyfer unrhyw fis | 24% | 18% | 24% | 5% |
| *Sampl* | *291* | *138* | *212* | *149* |

## Goroesi




### Mae rhai busnesau'n wynebu ansolfedd yn gron

7.4 Mae busnesau'n cydnabod bod cynlluniau'r llywodraeth hyd yn hyn wedi'u helpu mewn llawer o ffyrdd – yn fwyaf nodedig, maen nhw wedi gallu rhoi staff ar ffyrlo yn lle eu diswyddo.

7.5 Fodd bynnag, er gwaethaf y cymorth, nid yw tua chwarter (23%) o fusnesau'n disgwyl goroesi'r tri mis nesaf os yw cyfyngiadau symud yn parhau, tra nad yw tri o bob deg (30%) yn gwybod pa mor hir y gallant oroesi.

*"Roedd y [grant o] £25,000 yn dda iawn gennym ond mae'r arian hwnnw wedi mynd yn barod. Os na allwn ni agor erbyn mis Mehefin/Gorffennaf, ni fydd unrhyw beth gennym ni i'n cadw ni i fynd."*
Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain

### Mae eraill mewn sefyllfa wahanol

7.6 Mae tua thraean (31%) o weithredwyr mewn sefyllfa fwy cyfforddus o ran gallu goroesi am gyfnod hirach na chwe mis arall o gyfyngiadau symud. Mae'r rhain yn fwy tebygol o gynnwys y canlynol:

- Busnesau nad oes ganddynt staff parhaol (37%)
- Hostelau (41%) a gweithredwyr llety hunanddarpar (38%)
- Busnesau yn ne-orllewin Cymru (40%) a chanolbarth Cymru (35%)

7.7 Mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn cynnwys nifer o ‘fusnesau ffordd o fyw', lle nad twristiaeth sy'n ffurfio'r brif ffrwd arian ar gyfer y perchenogion.

*“Mae'n incwm ychwanegol gan fod gen i swydd arall, felly dwi'n lwcus yn hynny o beth fod tŷ arall gen i”*
Llety hunanddarpar, Gogledd

*“Gan fod gen i swydd ar wahân, dwi'n credu bydda i'n iawn. Mae gen i incwm yn dod i mewn o hyd.”*
Llety hunanddarpar, De-orllewin

**‘Mae'n dibynnu’**

7.8 Ymhlith y rhai a atebodd ‘mae’r cyfan yn dibynnu ar rai ffactorau’, y ddau brif ffactor a roddir yw:

- A fydd eu cais am grant yn llwyddiannus
- A fydd tymor haf eleni

*“Os na fydd pethau'n dechrau nôl yn ystod misoedd yr haf, efallai nad agorwn ni byth eto”*
Llety â gwasanaeth, De-orllewin

*“Os na chawn ni grant [ymgeisiwyd amdano], bydd rhaid i ni werthu”*
Llety hunanddarpar, Gogledd

*“Mae angen grant arnom [ymgeisiwyd amdano], neu bydd y busnes yn methu goroesi mwy nag ychydig wythnosau”*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

**Fesul rhanbarth**

7.9 Mae'r tabl isod yn dangos canlyniadau C21 wedi'u rhannu fesul rhanbarth:

| C21 *“Am sawl mis arall ydych chi'n credu y gall eich busnes oroesi … gan ystyried cynlluniau'r llywodraeth?”* | ***Rhanbarth Cymru*** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ***Gog*** | ***Canol*** | ***D. Orll.*** | ***D. Ddn.*** |
| Llai na mis | 4% | 1% | 2% | – |
| Mis | 5% | 6% | 1% | 5% |
| Dau fis | 7% | 11% | 7% | 11% |
| Tri mis | 8% | 12% | 7% | 12% |
| Pedwar mis | 3% | 6% | 3% | 6% |
| Pum mis | 2% | 2% | 1% | 3% |
| Chwe mis | 5% | 2% | 6% | 5% |
| Mwy na chwe mis | 25% | 35% | 40% | 28% |
| Mae’r cyfan yn dibynnu ar rai ffactorau | 5% | 1% | 6% | 5% |
| Ddim yn gwybod | 35% | 23% | 29% | 26% |
| *Sampl* | *296* | *145* | *215* | *149* |

## Pryderon i'r tymor canolig a'r hirdymor

7.10 Gofynnwyd y cwestiwn agored canlynol i ymatebwyr gennym: *“Ar ôl llacio'r cyfyngiadau symud a phan gall busnesau twristiaeth dderbyn ymwelwyr eto, a oes gennych bryderon yn y tymor canolig i'r hirdymor ynglŷn â goroesiad eich busnes?”* Rydym yn trafod y prif themâu isod.

### Mae fel ‘tri gaeaf’

7.11 Mae angen i lawer o fusnesau twristiaeth wneud digon o elw yn yr haf er mwyn goroesi'r gaeaf canlynol. Os caiff tymor yr haf eleni ei golli, ceir pryderon sylweddol ynglŷn â goroesi i'r tymor hwy. Mae rhai yn disgrifio hyn fel cael 'tri gaeaf' un ar ôl y llall.

*“Os bydd y cyfyngiadau symud a'r ffyrlo yn parhau, fe fasen ni’n iawn am ychydig, ond os na fyddwn ni’n agor tan fis Hydref, dywedwch, byddwn ni mewn helynt. Mae o fel cael tri gaeaf gefn wrth gefn.”*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*“Mae rhai pobl yn ei ddisgrifio fo fel senario 'tri gaeaf' – gaeaf, dim haf, gaeaf”*
Atyniad, Gogledd

**Cymunedau'n gwrthod ymwelwyr**

7.12 Mae rhai busnesau'n ofni adlach gan bobl leol pan fyddant yn dechrau derbyn ymwelwyr eto. Ychydig cyn y cyfyngiadau symud, bu llawer o atgasedd tuag at ymwelwyr nad oeddent yn lleol mewn rhannau o Gymru – yn enwedig yng nghefn gwlad y gogledd.

*“Rwy'n ofnus am ôl-effeithiau gan y bobl leol os byddwn ni’n llacio'n rhy gynnar gan fod llawer o ddrwgdeimlad”*
Parc carafanau, Gogledd

*“Mae'r gwesteion sy'n dod o bellach i ffwrdd wedi cael eu troi oddi ar ddod i'r fath graddau, nid yn unig gan y cyngor, ond gan bobl leol. Mae cymaint o gasineb tuag at bobl sydd ddim yn dod o'r ardal ar hyn o bryd.”*
Atyniad, Canolbarth

**Sut y bydd cadw pellter cymdeithasol yn gweithio ar gyfer mathau penodol o fusnes?**

7.13 Yn gyffredinol, pan fydd gan fusnesau'r hawl i dderbyn ymwelwyr eto, maen nhw'n deall na fyddant yn gallu dychwelyd yn syth i weithredu fel arfer ac fel oedd pethau gynt. Disgwylir y bydd rhyw fath o ganllawiau cadw pellter cymdeithasol yn eu lle.

7.14 Mae rhai busnesau'n cael trafferth gweld sut allai hyn weithio iddynt. Mae enghreifftiau'n cynnwys gweithredwyr gweithgareddau penodol lle nad yw'n hawdd osgoi cyswllt corfforol â gwesteion a busnesau llety bach sy'n gweithredu mewn amgylchedd cyfyng (e.e. ystafelloedd brecwast).

*“Mae hylendid brecwast yn bryder gen i”*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*“Bydd e mwy neu lai'n amhosib gweithredu a chadw pellter cymdeithasol. Gallwn ni wneud ein gorau ond mae angen i bobl gael cymorth corfforol wrth ddringo creigiau a chaiacio. Alla i ddim peidio â'u helpu.”*
Darparwr gweithgareddau, De-orllewin

**Adferiad araf – pwyll ymhlith cwsmeriaid a pherchenogion**

7.15 Mae'n bosib y bydd yn cymryd amser hir i rai ymwelwyr gael yr hyder i deithio eto, ac yn achos rhai perchenogion, yr hyder i'w derbyn. Ceir pryderon iechyd sylweddol – gallai'r perchenogion eu hunain fod yn hen ac mewn perygl uwch pe byddent yn dal y feirws.

*“Mae gen i ofn am ddal y feirws fy hun os ydan ni'n agor oherwydd dwi'n agored i niwed”*
Llety hunanddarpar, Gogledd

7.16 Yn ogystal â phryderon iechyd, gallai diffyg incwm fod yn rheswm arall am adferiad araf os yw pobl wedi colli eu swyddi neu wedi cael toriad yn eu cyflog.

*“Os ydy pobl wedi colli eu swyddi wedyn fyddan nhw'n methu fforddio gwyliau”*
Llety hunanddarpar, Gogledd

**A fydd unrhyw beth arall i ymwelwyr ei wneud?**

7.17 Mae angen bod yn glir ar y drefn o ran pryd y gall busnesau sy'n ymwneud â thwristiaeth agor eto. Mae rhai darparwyr llety yn tynnu sylw at y ffaith ei bod yn dda iawn ganddynt allu derbyn ymwelwyr eto, ond os yw bwytai, tafarndai ac atyniadau'r ardal yn parhau i fod ar gau, efallai mai bach iawn y bydd gan ymwelwyr posibl i'w wneud.

*“Fyddan ni'n methu masnachu os na fydd y bwytai ar agor”*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*“A fydd tafarndai a bwytai ar agor neu ai nhw fydd olaf? A fydd gerddi'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac ati ar agor?”*
Llety â gwasanaeth, Canolbarth

**Dim pryderon mawr gan rai lle nad twristiaeth yw'r prif incwm**

7.18 Dywedodd rhai gweithredwyr y gallant adael eu busnes twristiaeth yn 'segur' nes y bydd yn ddoeth i'w agor eto, a'i bod yn gwneud synnwyr economaidd i wneud hynny. Er efallai y byddant yn siomedig am golli eu hincwm ychwanegol, mae gallu dibynnu ar eu prif incwm yn eu rhoi mewn sefyllfa lawer llai difrifol na busnesau eraill.

*“Rwy'n un o'r rhai lwcus – dydw i ddim yn dibynnu ar y busnes gwely a brecwast i ennill bywoliaeth. Mae fy ngŵr yn gweithio ac felly arian poced yw e i mi.”*
Llety â gwasanaeth, Canolbarth

**Mae rhai yn gweld pethau cadarnhaol**

7.19 Er bod llawer o resymau i berchenogion busnesau twristiaeth ofni'r dyfodol, mae rhai yn obeithiol y bydd adferiad mewn twristiaeth ddomestig os nad yw pobl o Brydain naill ai'n gallu archebu gwyliau tramor neu ddim eisiau cymryd risg trwy wneud hynny.

7.20 Tynnodd rhai sylw at y ffaith fod ganddynt sylfaen gadarn o gwsmeriaid rheolaidd, y byddant yn disgwyl iddynt ddychwelyd cyn gynted ag y caiff y cyfyngiadau symud eu diddymu.

*“Dwi'n optimistaidd y bydd pethau'n gwella'r flwyddyn nesa. Bydd mwy o bobl yn treulio'u gwyliau gartref.”*
Llety â gwasanaeth, De-orllewin

## Cymorth dymunol gan Croeso Cymru (Llywodraeth Cymru)

7.21 Gofynnwyd y cwestiwn agored canlynol i ymatebwyr gennym: *“Mae Croeso Cymru yn rhan o Lywodraeth Cymru. Pa fath o wybodaeth neu gymorth y byddech chi'n falch o'i gael oddi wrtho mewn perthynas â COVID-19 os yn bosibl?”* Rydym yn trafod y prif themâu isod.

**Mae'r cymorth yn dda yn barod**

7.22 Dywedodd llawer o ymatebwyr fod y llif o wybodaeth a chymorth ariannol gan Croeso Cymru / Llywodraeth Cymru wedi bod yn dda hyd yn hyn, a'u bod yn ddiolchgar am hyn.

*"Dwi wedi'n syfrdanu ac yn ddiolchgar am y cymorth a chyngor mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi i ni. Mae talu 80% i'r staff a rhoi'r grant i ni wedi bod yn fendith hollol."*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*"Dwi wedi bod yn fodlon iawn ar y wybodaeth sydd wedi dod drwodd hyd yn hyn"*
Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain

**Arweiniad ar sut i weithredu**

7.23 Pryd y gall busnesau ddechrau derbyn ymwelwyr eto, bydd angen arnynt gael arweiniad clir ar sut i weithredu'n ddiogel.

*"Dwi angen gwybodaeth am sut i lanhau yn gywir a faint o amser ddylwn i ei adael rhwng derbyn gwahanol bobl i aros, ar ôl i'r cyfyngiadau symud ddod i ben"*
Llety hunanddarpar, De-ddwyrain

*"Gwybodaeth am unrhyw fesurau ychwanegol maen nhw am i ni eu cymryd? E.e. y tymheredd ar gyfer golchi dillad gwely a sut i lanhau'r eiddo'n drylwyr, a faint o amser i'w dreulio yn gwneud hynny"*
Llety hunanddarpar, De-ddwyrain

**Ail gartref o gymharu â pherchennog busnes lleol**

7.24 Teimlodd rhai gweithredwyr llety hunanddarpar yn ddig fod y gallu i hawlio cymorth ar gyfer eu busnes yn cael ei 'ddrysu' gyda pherchenogaeth ar ail gartrefi gan bobl nad ydynt yn lleol. Hoffent weld y ddwy sefyllfa'n cael eu gwahanu.

*"Rydyn ni am weld y cyngor yn rhoi [grant] i un o'n busnesau go iawn ni, nad ydynt yn ail gartrefi, ac sy'n talu ardrethi busnes, a pheidio ag achosi i ni aros yn hwy"*
Llety hunanddarpar, Gogledd

*"Pam ein bod ni'n cael ein rhoi yn yr un blwch â phobl sydd efo ail gartrefi?"*
Llety hunanddarpar, Gogledd

**Cymorth ariannol parhaus os caiff tymor yr haf ei golli**

7.25 Mae rhai gweithredwyr eisoes yn disgwyl y bydd angen 'diystyru' eleni. Dyfynnir 26 Medi gan rai fel y dyddiad cynharaf y cynghorwyd iddynt dderbyn archebion. Mae rhai yn gweld hyn fel arwydd y bydd y diwydiant yn colli tymor yr haf. Os felly, bydd angen iddynt gael cymorth arian sylweddol pellach er mwyn goroesi – nid yn unig yr haf, ond y gaeaf hefyd gan eu bod yn dibynnu ar incwm yr haf i dalu am fisoedd main y gaeaf.

*“Y broblem fydd peidio gallu dod drwy'r tri mis nesaf. Bydd y grant o £25,000 yn talu am y biliau gostyngedig yn ystod y cyfnod hwnnw. Misoedd y gaeaf fydd yn ein lladd ni. Dyna pryd bydd angen y cymorth arnon ni.”*

Llety â gwasanaeth, Canolbarth

# Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2020: Effaith Covid-19 Cam 3

Sector Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich math o fusnes orau?

- Llety â gwasanaeth ❑
- Llety hunan arlwyo ❑
- Maes carafannau / pebyll ❑
- Hostel ❑
- Amgueddfa ❑
- Atyniad ❑
- Cynal gweithgaredd ❑
- Bwyty / tafarn / caffi ❑

Q1 Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio sefyllfa bresennol eich busnes / atyniad orau?

- Rydym ar agor ❑
- Rydym wedi bod ar agor yn 2020 ond ar gau ar hyn o bryd oherwydd yr achosion o Covid-19 ❑
- Nid ydym wedi agor eto yn 2020 ❑

Q2 *Amgueddfeydd ac atyniadau*

A yw'ch atyniad yn rhad ac am ddim neu'n oes angen talu am fynediad?

- Mynediad am ddim ❑
- Talu am fynediad ❑

Q3 Faint o staff parhaol â thâl y mae eich busnes yn eu cyflogi, ac eithrio'r perchnogion?

- Dim ❑
- 1 ❑
- 2 ❑
- 3 ❑
- 4 ❑
- 5 ❑
- 6 i 10 ❑
- 11 i 50 ❑
- 51 i 100 ❑
- 101 i 250 ❑
- Mwy na 250 ❑

Q4 Oes gennych chi unrhyw wirfoddolwyr yn gweithio i / gyda chi?

- Oes ❑
- Na ❑

Q5 Faint o weithwyr tymhorol fyddech chi fel arfer yn eu cyflogi yr adeg hon o'r flwyddyn?

- Dim ❑
- 1 ❑
- 2 ❑
- 3 ❑
- 4 ❑
- 5 ❑
- 6 i 10 ❑
- 11 i 50 ❑
- 51 i 100 ❑
- 101 i 250 ❑
- Mwy na 250 ❑
- Ddim yn gwybod ❑

Q6 *Os oes unrhyw weithwyr tymhorol yn cael eu cyflogi fel arfer*

Os o gwbl, faint o weithwyr tymhorol ydych chi wedi gallu cyflogi eleni?

- Dim ❑
- 1 ❑
- 2 ❑
- 3 ❑
- 4 ❑
- 5 ❑
- 6 i 10 ❑
- 11 i 50 ❑
- Mwy na 50 ❑

  *Nodwch faint* ____________

Q7 *Os oes unrhyw weithwyr tymhorol yn cael eu cyflogi fel arfer*

Faint o'ch gweithwyr tymhorol a oedd yn gyflogedig cyn 19eg Mawrth ac sydd felly'n gymwys i gael eu cyflogi drwy'r Cynllun Cadw Swyddi (furloughed) yn unol â diweddariad y Canghellor ar 15fed Ebrill?

- Ddim yn berthnasol - ni chyflogwyd unrhyw weithwyr tymhorol cyn 19eg Mawrth ❑
- 0 ❑
- 1 ❑
- 2 ❑
- 3 ❑
- 4 ❑
- 5 ❑
- 6 i 10 ❑
- 11 i 50 ❑
- 51 i 100 ❑
- 101 i 250 ❑
- Mwy na 250 ❑
- Ddim yn gwybod ❑

Q8 *Os yn cyflogi staff (C3 neu C5)*

Pa effeithiau y mae Covid-19 wedi'u profi ar eich busnes o ran staff ers dechrau'r achosion?

- Prinder staff oherwydd salwch a / neu hunan-ynysu ❑
- Wedi gorfod diswyddo ❑
- Wedi gorfod gofyn i staff gymryd absenoldeb â thâl / Cynllun cadw swyddi ❑
- Wedi gorfod gofyn i staff gymryd absenoldeb di-dal ❑
- Wedi gorfod gofyn i wirfoddolwyr beidio dod i'r gwaith ❑
- Dim effaith ❑
- Ddim yn siwr/ rhy gynnar i ddweud ❑
- Effaith arall ❑

Faint o bobl ydydch chi wedi gorfod eu diswyddo? ______

Faint o bobl ydych chi wedi gorfod eu rhoi ar y Cynllun Cadw Swyddi / gofyn am gymryd absenoldeb â thâl? ______

Faint o bobl ydych chi wedi gorfod gofyn am gymryd absenoldeb di-dâl? ______

(Arall) Nodwch effaith arall ______

Q9 A fyddai ots gennych roi syniad inni o faint o incwm y mae eich busnes wedi'i golli hyd yn hyn oherwydd argyfwng Covid-19?

- Heb golli unrhyw incwm ❑
- Hyd at £1,000 ❑
- £1,001 - £2,500 ❑
- £2,501 - £5,000 ❑
- £5,001 - £10,000 ❑
- £10,001 - £25,000 ❑
- £25,001 - £50,000 ❑
- £50,001 - £100,000 ❑
- £100,001 - £250,000 ❑
- £250,001 - £500,000 ❑
- £500,001 - £1,000,000 ❑
- Mwy na £1,000,000 ❑
- Ddim yn gwybod neu'n gwrthod dweud ❑

Q10 *Os collir unrhyw refeniw*

Ac yn fras pa gyfran o'ch refeniw blynyddol arferol y mae'r golled honno'n ei gynrychioli hyd yn hyn?

- 2% neu lai ❑
- 3 - 5% ❑
- 6 - 10% ❑
- 11 - 15% ❑
- 16 - 20% ❑
- 21 - 30% ❑
- 31 - 40% ❑
- 41 - 50% ❑
- 51 - 60% ❑
- 61 - 70% ❑
- 71 - 80% ❑
- Dros 80% ❑
- Ddim yn gwybod neu'n gwrthod dweud ❑

Q11 *Os yw unrhyw staff a gyflogir (C3 neu C5)*

Agorodd Cronfa Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru ar gyfer ceisiadau ar ddydd Gwener 17eg Ebrill. Ydych chi wedi ceisio i wneud cais am gymorth?

- Do, ond ddim yn cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd ❑
- Do, wedi cyflwyno cais am grant micro-fusnes ❑
- Do, wedi cyflwyno cais am fusnesau bach a chanolig / grant busnes mawr ❑
- Na ❑

Q12 *Os na chwrdd â'r meini prawf cymhwysedd*

Am ba reswm (rhesymau) nad ydych yn cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd?

- Methu dangos colled trosiant digon uchel ❑
- Ceisio cael math arall o gymorth cyllid grant na ellir ei ad-dalu o Lywodraeth Cymru ❑
- Methu dangos bod ymdrechion wedi'u gwneud i gynnal gweithgaredd busnes ❑
- Mae'r grant ardrethi busnes yr ydym yn ei gael gan Lywodraeth y DU trwy'r awdurdod lleol eisoes yn uwch na, neu byddai'n gyfran fawr o, werth y gefnogaeth y byddem yn ei chael gan Lywodraeth Cymru. ❑
- Eisoes yn cael gwyliau ardrethi busnes, ac felly yn meddwl na allem wneud cais ❑
- Nid yw'r busnes wedi bod yn gweithredu am ddigon o amser ❑
- Y busnes heb ei gofrestru ar gyfer TAW ❑
- Arall ❑

*Nodwch arall* ______________________________

Q13 *Os cyflwynir cais*

Ydych chi'n gwybod canlyniad eich cais eto?

- Ydw - rydym wedi bod yn llwyddiannus ❑
- Ydw - ond rydym wedi bod yn aflwyddiannus ❑
- Na - rydyn ni'n aros ❑

Q14 *Os na cheisir gwneud cais eto*

Ydych chi'n bwriadu gwneud cais?

- Ydw ❑
- Nac ydw ❑
- Ddim yn gwybod ❑

Q15 *Os nad ydynt yn bwriadu gwneud cais*

Pam nad ydych chi'n bwriadu gwneud cais?

- Ddim yn disgwyl bod yn llwyddiannus ❑
- Ddim angen y gefnogaeth ❑
- Rhy ddryslyd / ddim yn gwybod sut i wneud hynny ❑
- Heb edrych i mewn iddo eto ❑
- Arall ❑

*Nodwch reswm arall* ______________________________

Q16 *Os nad ydych yn disgwyl bod yn llwyddiannus*

Am ba reswm (rhesymau) nad ydych yn disgwyl bod yn llwyddiannus wrth wneud cais?

- Methu dangos colled trosiant digon uchel ❑
- Ceisio cael math arall o gymorth cyllid grant na ellir ei ad-dalu o Lywodraeth Cymru ❑
- Methu dangos bod ymdrechion wedi'u gwneud i gynnal gweithgaredd busnes ❑
- Mae'r grant ardrethi busnes yr ydym yn ei gael gan Lywodraeth y DU trwy'r awdurdod lleol eisoes yn uwch na, neu byddai'n gyfran fawr o, werth y gefnogaeth y byddem yn ei chael gan Lywodraeth Cymru. ❑
- Eisoes yn cael gwyliau ardrethi busnes, ac felly yn meddwl na allem wneud cais ❑
- Nid yw'r busnes wedi bod yn gweithredu am ddigon o amser ❑
- Y busnes heb ei gofrestru ar gyfer TAW ❑
- Gormod o fusnesau eraill yn ymgeisio ❑
- Ddim yn gwybod sut i wneud cais cryf ❑
- Arall ❑

*Nodwch arall* ______________________________

Q17 *Pawb*

Ac a ydych chi'n gymwys i gael gwyliau ardrethi busnes?

- Ydw ❑
- Nac ydw ❑
- Ddim yn gwybod ❑

Q18 A ydych chi neu'ch busnes wedi gwneud cais am unrhyw un o'r cymorth canlynol?

| | Ydy | Na | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Cynllun Benthyciad Banc Datblygu Cymru | ❑ | ❑ | ❑ |
| Benthyciad ymyrraeth busnes Llywodraeth y DU | ❑ | ❑ | ❑ |
| Grant cyfradd busnes o hyd at £10,000 | ❑ | ❑ | ❑ |
| Grant cyfradd busnes o hyd at £25,000 | ❑ | ❑ | ❑ |
| Credyd Cynhwysol | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynllun hunangyflogaeth | ❑ | ❑ | ❑ |

Q19 *Os gwnaethon wneud cais*

A oedd eich cais yn llwyddiannus?

| | Oedd | Nac oedd | Ddim yn gwybod eto |
|---|---|---|---|
| Benthyciad Banc Datblygu Cymru | ❑ | ❑ | ❑ |
| Benthyciad ymyrraeth busnes Llywodraeth y DU | ❑ | ❑ | ❑ |
| Grant cyfradd busnes o hyd at £10,000 | ❑ | ❑ | ❑ |
| Grant cyfradd busnes o hyd at £25,000 | ❑ | ❑ | ❑ |
| Credyd Cynhwysol | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynllun hunangyflogaeth | ❑ | ❑ | ❑ |

Q20 Beth yw'r mis cynharaf o nawr pan fydd gan eich busnes nifer sylweddol o archebion?

- Mai ❑
- Mehefin ❑
- Gorffenaf ❑
- Awst ❑
- Medi ❑
- Hydref ❑
- Tachwedd ❑
- Rhagfyr ❑
- Y tu hwnt i 2020 ❑
- Nid oes gennym archebion sylweddol mewn unrhyw fis ❑
- Ddim yn cymryd archebion ymlaen llaw ❑

Q21 Sawl mis arall ydych chi'n meddwl y gall eich busnes oroesi amdano yn yr cyfnod cyfyngiadau, gan ystyried cynlluniau'r llywodraeth a gyhoeddwyd hyd yma?

- Llai nag 1 mis ❑
- 1 mis ❑
- 2 mis ❑
- 3 mis ❑
- 4 mis ❑
- 5 mis ❑
- 6 mis ❑
- Mwy na 6 mis ❑
- Mae'r cyfan yn dibynnu ar rai ffactorau ❑
- Ddim yn gwybod ❑

Q22 *(Os mae'n dibynnu)*

*Beth mae goroesiad eich busnes yn dibynnu fwyaf arno?*

______________________________

Q23 Ar ôl i fesurau cyfyngu gael eu llacio a gall busnesau twristiaeth dderbyn ymwelwyr eto, a oes gennych unrhyw bryderon tymor canolig i hir am oroesiad eich busnes?

______________________________

Q24 Mae Croeso Cymru yn rhan o Lywodraeth Cymru. Pa fath o wybodaeth neu gefnogaeth ynglyn â Covid-19 fyddech chi'n ei groesawu ganddyn nhw os yn bosibl?

______________________________

Q25 *(Os nad ydyn nhw eisoes wedi ateb 'ydw' i gyfraddau yn C17)*

A yw'ch busnes yn talu cyfraddau annomestig?

- Ydy ❑
- Nac ydy ❑
- Ddim yn gwybod ❑

Q26 *(Os nad yw hyn yn hysbys yn barod o atebion blaenorol)*

A yw'ch busnes wedi'i gofrestru ar gyfer TAW?

- Ydy ❑
- Nac ydy ❑
- Ddim yn gwybod ❑

Q27 A yw eich busnes wedi'u graddio neu wedi'u hachredu gan unrhyw un o'r canlynol?

- Ydy - Croeso Cymru ❑
- Ydy - AA ❑
- Ydy - Cynllun Achredu Amgueddfeydd y DU (Cyngor y Celfyddydau) ❑
- Ydy - arall ❑
- Dim un o'r uchod ❑

(Arall) Nodwch gynllun achredu arall ______________________

Q28 Yn olaf, mae canfyddiadau'r ymchwil yn cael eu cylchredi yng nghylchlythyrau diwydiant Croeso Cymru. Os nad ydych chi wedi cofrestru i dderbyn y rhain, a hoffech chi?

- Hoffwn ❑
- Na hoffwn ❑
- Wedi cofrestru yn barod ❑